# Adroddiad Interim

Asesiad o gynnydd a wnaed yn erbyn ein Cynllun Blynyddol 2024-25 yn ystod y cyfnod 1 Ebrill i 30 Medi 2024.

Hydref 2024

Mae’r Adroddiad Interim hwn yn cwmpasu’r cyfnod o 1 Ebrill tan 30 Medi 2024. Fe’i paratowyd ar y cyd, ac fe’i gosodir gerbron y Senedd, gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae’r Adroddiad Interim yn cynnwys asesiad o i ba raddau y mae:

- arfer swyddogaethau’r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn gyson â’r Cynllun Blynyddol a baratowyd ar gyfer 2024-25.
- cynnydd wedi cael ei wneud tuag at gyflawni’r blaenoriaethau a gyflwynir yn y Cynllun; ac
- y mae cynnydd wedi cael ei wneud tuag at gyrraedd ein targedau dangosydd perfformiad allweddol.

Archwilio Cymru yw enw cyfunol anstatudol Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân gyda’u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. O ganlyniad, yn y Cynllun hwn, cyfeiriwn yn benodol at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru mewn adrannau pan fo angen manylder cyfreithiol.

Os bydd angen y cyhoeddiad hwn arnoch ar ffurf a/neu iaith arall, neu os bydd gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â’i gynnwys, cysylltwch â ni drwy ddefnyddio’r manylion isod.

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

| | |
|---|---|
| Ffôn | 02920 320 500 |
| E-bost | post@archwilio.cymru |
| Gwefan | archwilio.cymru |
| X | @WalesAudit |

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

# Cynnwys

**Rhagair** 4

**Cyflawni archwiliadau** 6

Gwaith archwilio lleol 6

Astudiaethau cenedlaethol 8

Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol 10

**Gwella busnes** 11

Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel 12

Dull wedi’i dargedu ac sy’n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu 16

Diwylliant a model gweithredu sy’n ein galluogi i ffynnu 18

**Dangosyddion perfformiad allweddol** 21

# Rhagair

Rydym yn falch i gyflwyno ein Adroddiad Interim ar gyfer 2024.

We are pleased to present our Interim Report for 2024.

Mae'r Adroddiad hwn yn disgrifio'r cynnydd a wnaed gennym yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill i 30 Medi 2024 ar gyflawni'r rhaglenni gwaith a nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2024-25. Rydym hefyd yn adrodd ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein targedau dangosyddion perfformiad allweddol, er na allwn adrodd yn erbyn nifer o'r dangosyddion tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol.

Gwnaethom gynnydd da o ran darparu rhaglen gynhwysfawr ac effeithiol o waith archwilio. Cwblhawyd pob archwiliad o gyfrifon y GIG 2023-24 erbyn mis Mehefin 2024, a chwblhawyd yr holl archwiliadau a drefnwyd o gyfrifon llywodraeth ganolog erbyn mis Medi 2024. Rydym hefyd ar y trywydd iawn i ardystio'r rhan fwyaf o gyfrifon llywodraeth leol 2023-24 a baratowyd ar amser erbyn y dyddiad cau ar 30 Tachwedd.

Gwnaethom gyflwyno deg allbwn adroddiad cenedlaethol yn y cyfnod o 1 Ebrill i 30 Medi 2024 o'n rhaglen astudiaethau cenedlaethol. Mae'r gwaith hwn yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd wrth ystyried sut mae adnoddau'n cael eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus. Fe wnaethom hefyd barhau i lywio ein gwaith archwilio perfformiad lleol i fynd i'r afael â'r heriau sy'n esblygu y mae cyrff a archwilir yn eu hwynebu.

O ran ein blaenoriaethau gwella busnes tymor hwy, rydym bellach wedi rhoi cynlluniau clir ar waith i ddal i fyny â'r ôl-groniad ar ôl y pandemig a chyflwyno'r amserlenni ar gyfer cyflawni ein gwaith llywodraeth leol a'r GIG. Gwnaethom gynnydd da hefyd o ran cyflwyno dull mwy systematig o wneud gwaith dilynol, a dadansoddiad ariannol a chanlyniadau cryfach yn ein gwaith archwilio perfformiad.

Er mwyn ehangu ymgysylltiad â'n gwaith, rydym bellach yn y camau olaf o baratoi fersiwn fyw ar-lein o'n rhaglen astudiaethau cenedlaethol, ac o ailddatblygu'r rhan o'n gwefan lle rydym yn hyrwyddo enghreifftiau o arfer da. Ac rydym wedi buddsoddi ymhellach yn ein cynlluniau hyfforddeiaethau a phrentisiaethau, ac wedi lansio strategaeth gweithlu hirdymor ar gyfer sicrhau a datblygu adnoddau pobl angenrheidiol Archwilio Cymru.

Rydym wedi ymrwymo i adeiladu ar y momentwm hwn ar gyfer gweddill y flwyddyn, gan ddefnyddio ein safbwynt a'n harbenigedd unigryw i sicrhau pobl bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda, i esbonio sut mae'r arian hwnnw'n cael ei wario, ac i ysbrydoli'r sector cyhoeddus i wella.



**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



**Dr Ian Rees**
Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru

# Cyflawni Archwiliadau

## Gwaith archwilio lleol

1 Rydym yn gwneud gwaith archwilio lleol yn y mwyafrif o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys archwiliadau o gyfrifon a gwaith archwilio perfformiad lleol yn bennaf. Darperir rhestr gynhwysfawr o'r cyrff cyhoeddus a'r math o waith archwilio lleol a wneir yn y cyrff hynny yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2024-25.

2 Maes mwyaf ein gwaith lleol yw archwilio cyfrifon dros 800 o gyrff cyhoeddus ledled Cymru. Mae ein gwaith cyfrifon yn darparu asesiad annibynnol ac arbenigol parhaus i'r Senedd, y cyrff a archwilir a'r cyhoedd ehangach o reolaeth a chydnerthedd ariannol ar draws y sector cyhoeddus.

3 Ar 30 Medi 2024, roedd gwaith yn parhau i gwblhau ein harchwiliadau o gyfrifon 2023-24 ar draws gwahanol sectorau. Fe wnaethom gwblhau ein gwaith cyfrifon yng nghyrff y GIG ym mis Mehefin 2024 yn unol â'n cynllun cyflawni. Erbyn diwedd mis Medi 2024, roedd yr holl archwiliadau a drefnwyd o gyfrifon 2023-24 llywodraeth ganolog wedi'u cwblhau hefyd.

4 Mewn llywodraeth leol, er bod cyflawni archwiliadau o gyfrifon erbyn y dyddiad terfyn o 30 Tachwedd yn parhau i fod yn her, bydd yr holl gyfrifon awdurdodau unedol a baratowyd yn brydlon yn cael eu hardystio erbyn y dyddiad terfyn presennol o 30 Tachwedd. Rydym hefyd yn bwriadu cwblhau gwaith archwilio cyfrifon ar gyfer pob awdurdod tân ac achub a chronfa bensiwn llywodraeth leol, tri o'r pedwar awdurdod heddlu, a dau o'r tri awdurdod parc cenedlaethol, erbyn diwedd mis Tachwedd 2024.

5 Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, fe wnaethom hefyd barhau i lunio a chyflawni gwaith archwilio perfformiad lleol i fynd i'r afael â'r heriau sy'n esblygu a wynebir gan ein cyrff a archwilir, a lle'n berthnasol ac yn ymarferol i helpu i gyflawni dyletswyddau ymchwiliadau datblygu cynaliadwy'r Archwilydd Cyffredinol.

6 Hyd yma, mae hyn wedi cynnwys:

- Yn y GIG, gwaith i adolygu'r dull o nodi a chyflawni arbedion ariannol, rheoli'r galw am ofal brys ac argyfwng, a ffactorau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n effeithio ar ryddhau cleifion yn amserol; rydym hefyd wedi bwrw ymlaen â gwaith cynllunio ar gyfer adolygiadau Cymru gyfan o ôl-groniadau rhestrau aros a thrawsnewid digidol y GIG.
- Mae gwaith ym mhob un o'r 22 cyngor ar eu cynaliadwyedd ariannol wedi'i gwblhau ac mae adroddiad cenedlaethol wedi'i ddrafftio yn amlinellu ffactorau sy'n effeithio ar allu'r sector i ateb y galw cynyddol a phwysau ariannol. Mae gwaith maes ym mhob cyngor ar ba mor effeithiol y maent yn comisiynu gwasanaethau ar y gweill. Mae gwaith sicrwydd ac asesu risg yn cael ei gyflwyno i bob cyngor tra bod archwiliadau pwrpasol lleol yn parhau i gael eu cyflawni.

7 Darperir rhagor o wybodaeth am gynnydd a wnaed tuag at fynd i’r afael ag ôl-groniad etifeddiaeth COVID yn ein gwaith archwilio lleol a dod â’n rhaglenni mawr o waith yn ôl i amserlenni cyn y pandemig yn adran Gwella Busnes yr adroddiad hwn.

## Astudiaethau cenedlaethol

8 Rydym yn cyflawni rhaglen barhaus o astudiaethau cenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys astudiaethau eraill sy'n canolbwyntio ar y GIG a llywodraeth leol yn ogystal â'n rhaglenni archwilio lleol yn y sectorau hynny. Rydym hefyd yn paratoi allbynnau ychwanegol yn tynnu sylw at themâu cyffredin o’n gwaith archwilio lleol. Mae ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2024-25 yn cynnwys manylion am astudiaethau cenedlaethol a oedd ar y gweill ar 31 Mawrth 2024 ac am waith newydd yr oeddem yn bwriadu ei ddechrau yn 2024-25.

9 Mae’r tabl isod yn rhestru deg allbwn adroddiad cenedlaethol o wahanol fathau a gyflawnwyd gennym yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2024. Maent wedi’u grwpio yn ôl y brif thema y maent yn ymwneud â hi ond gallent fod yn berthnasol i fwy nag un thema.

10 Rydym yn parhau i adolygu ein rhaglen o astudiaethau yn rheolaidd, gan gymryd i ystyriaeth yr amgylchedd sy’n esblygu yn allanol, ein darpariaeth adnoddau ein hunain a chapasiti cyrff a archwilir i ymgysylltu â ni. Dros y cyfnod adrodd, rydym wedi bwrw ymlaen â gwaith i sefydlu tudalen Blaenraglenni benodol ar ein gwefan i ddarparu gwybodaeth gyfredol am astudiaethau gweithredol.

11 Rydym yn cynnal hyblygrwydd digonol fel y gallwn ymateb yn effeithiol i faterion sy’n dod i’r amlwg sydd o bwys cyhoeddus neu seneddol. Gallai allbynnau ychwanegol hefyd ddod i’r amlwg o waith ymchwil a datblygu parhaus.

## Allbynnau adrodd cenedlaethol a gwblhawyd yn ystod y cyfnod adrodd

| Thema | Allbynnau adroddiad cenedlaethol |
|---|---|
| Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb | Trefniadau i gyrraedd y targed tai fforddiadwy a gwireddu manteision ehangach. |
| Ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur | Cyflawni amcanion teithio llesol a rheoli cyllid cysylltiedig. |
| Cydnerthedd gwasanaeth a mynediad | Strategaeth ddigidol llywodraeth leol. |
| Gwasanaethau cyhoeddus a reolir yn dda | Llywodraethu Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.<br>Canfyddiadau o waith paru data ar gofrestriadau fferylliaeth gymunedol a chleifion meddygon teulu'r GIG.<br>Statws prosiect gwella ffordd adran 2 yr A465.<br>Defnyddio gwybodaeth am berfformiad mewn llywodraeth leol i ddeall safbwyntiau defnyddwyr.<br>Diweddariad ar gyllid ac offeryn data'r GIG.<br>Llywodraethiant Awdurdodau Tân ac Achub.<br>Cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer TVR Automotive Ltd. |

# Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol

## Cefnogi gwaith y Senedd

12 Yn ystod y cyfnod adrodd, fe wnaeth ein gwaith barhau i chwarae rhan allweddol o ran cefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd yn ei ystyriaeth o sut y defnyddir adnoddau wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus.

13 Roedd yr allbynnau o'n gwaith yn cefnogi wyth cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor. Roedd hyn yn cynnwys briffio'r Pwyllgor ar allbynnau'r adroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd yn y cyfnod (o'r rhestr uchod), yn ogystal â'n hadroddiad ym mis Mawrth 2024 ar Cefnogi Wcreiniaid yng Nghymru.. Ymhlith pethau eraill, gwnaethom hefyd gefnogi paratoi deunydd briffio ar gyfer sesiynau tystiolaeth y Pwyllgor ar Gyllid a llywodraethu'r GIG; a chynigiwyd ein persbectif gan fod y Pwyllgor yn paratoi adroddiadau ar gyfrifon Amgueddfa Cymru ar gyfer 2021-22 ac ar ddiogelwch adeiladau.

14 Rydym wedi parhau i ymgysylltu â thimau clercio ac ymchwil i bwyllgorau eraill y Senedd i drafod ein gwaith lle mae hyn o ddiddordeb i'r ddwy ochr. Er enghraifft, yn ystod y cyfnod buom yn ymgysylltu â'r rhai sy'n cefnogi'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i rannu manylion am ein gwaith tai fforddiadwy o ystyried ei berthnasedd i ymchwiliad y Pwyllgor ar gyflenwad tai cymdeithasol.

## Cefnogi pwyllgorau archwilio a chraffu cyrff cyhoeddus

15 Trwy gydol y cyfnod adrodd, fe wnaethom fynychu cyfarfodydd pwyllgorau archwilio a chraffu cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn rheolaidd i ddarparu gwybodaeth friffio ac adrodd ar ein gwaith archwilio lleol.

16 Fe wnaethom hefyd barhau ein sesiynau briffio rheolaidd ar faterion yn ymwneud ag archwiliadau i grwpiau Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Chyfarwyddwyr Cyllid y GIG, Grŵp Cymdeithas Trysoryddion Cymru llywodraeth leol, a'r Grŵp Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio Llywodraeth Ganolog.

## Cefnogi'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr lleol

17 Rydym yn derbyn gohebiaeth yn rheolaidd gan y cyhoedd, eu cynrychiolwyr etholedig lleol a chenedlaethol ac eraill sy'n codi pryderon posibl ynghylch stiwardiaeth arian ac asedau cyhoeddus.

18 Yn ystod y cyfnod adrodd, fe wnaethom dderbyn 52 eitem o ohebiaeth a sicrhau ein bod yn ymateb i'r pryderon hynny mewn ffordd deg, gymesur, a phroffesiynol. Hefyd, cysylltodd 8 o unigolion â ni rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2024 yn dynodi eu bod yn dymuno gwneud datgeliad chwythu'r chwiban.

# Gwella busnes

19 Yn ein Strategaeth ar gyfer 2022 i 2027, fe wnaethom nodi tri maes pwyslais lle'r ydym yn blaenoriaethu camau i helpu Archwilio Cymru gyflawni ei weledigaeth gyffredinol.

- Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel
- Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu
- Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu

20 Yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2024-25, fe wnaethom gyflwyno ein blaenoriaethau cynllunio busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, yn cyd-fynd â'r meysydd pwyslais strategol y maent yn gysylltiedig â nhw. Mae'r tablau canlynol yn nodi'r cynnydd yr ydym wedi ei wneud tuag at gyflawni pob un o'r blaenoriaethau hynny dros y cyfnod 1 Ebrill i 30 Medi 2024.

## Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel

| Blaenoriaethau | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2024-25 |
|---|---|
| Dod â'r amserlen ar gyfer cyflawni gwaith archwilio cyfrifon yn nes yn unol â therfynau amser Llywodraeth Cymru (15 Gorffennaf ar gyfer y GIG a 30 Tachwedd ar gyfer llywodraeth leol). | **Statws:** Ar y trywydd iawn yn bennaf ond angen rhywfaint o welliant pellach<br><br>**Sylwadau:**<br><br>Ardystiwyd holl gyfrifon 2023-24 y GIG a llywodraeth ganolog a drefnwyd yn brydlon. Er bod cyflawni'r archwiliadau o gyfrifon y sector llywodraeth leol erbyn dyddiad terfyn 30 Tachwedd yn parhau i fod yn her, bydd yr holl gyfrifon llywodraeth leol a baratowyd yn brydlon yn cael eu hardystio erbyn y dyddiad terfyn.<br><br>Rydym hefyd wedi rhoi cynlluniau eglur ar waith i ddal i fyny â'r ôl-groniad yn ein gwaith llywodraeth leol a GIG i ganiatáu i ni leihau'r amserlenni ar gyfer cyflawni dros y tair blynedd nesaf.<br><br>Yn y cyfnod adrodd hwn, rydym wedi.<br>• Cytuno ar fanylion cynllun adfer i fynd â ni hyd at 2026.<br>• Gweithio gyda thrysorwyr llywodraeth leol i sefydlu cynllun tair blynedd eglur i baratoi cyfrifon erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn ac iddynt gael eu harchwilio erbyn 30 Tach 2024, 31 Hyd 2025 a 30 Medi 2026.<br>• Gweithio yn agos gyda'r sector llywodraeth leol i geisio gwella prydlondeb ac ansawdd cyfrifon drafft a gyflwynir i gael eu harchwilio, er bod hyn yn dal i fod yn her i rai cyrff llywodraeth leol.<br>• Dechrau gwaith i sicrhau bod ein prosesau recriwtio a dethol mor effeithlon â phosibl i alluogi swyddi gwag gael eu llenwi'n brydlon. Dros y cyfnod, rydym wedi llwyddo i recriwtio 27 o weithwyr dan hyfforddiant, 6 o brentisiaid a 2 o archwilwyr uwch ynghyd ag archwilwyr wrth gefn i helpu i roi gwaith yn ôl ar y trywydd iawn. |

| Blaenoriaethau | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2024-25 |
| --- | --- |
| Dod â’r amserlen yn nes ar gyfer cwblhau gwaith perfformiad lleol fel bod y rhan fwyaf o’r gwaith yn cael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn. | **Statws:** Ar y trywydd iawn yn bennaf ond angen rhywfaint o welliant pellach<br>**Sylwadau:**<br>Yn y cyfnod adrodd, rydym wedi:<br>• Rhoi cynlluniau clir ar waith i ailbroffilio ein rhaglenni archwilio lleol yn y GIG a llywodraeth leol i fynd i'r afael â rhan sylweddol o'n hôl-groniad, a chyfleu'r newidiadau hynny i gyrff a archwilir.<br>• Sicrhau bod ein trefniadau adnoddau yn rhoi blaenoriaeth i leihau'r ôl-groniad yn ein rhaglenni archwilio lleol, wrth reoli'r effaith ar waith arall.<br>• Datblygu recriwtio allanol ar gyfer swyddi gwag er mwyn dod â ni'n ôl yn nes at ein sefydliad unwaith y bydd staff newydd wedi sefydlu.<br>• Defnyddio ein cronfa contractwyr i sicrhau adnoddau tymor byr ychwanegol i gefnogi gwaith prosiect.<br>• Bwrw ymlaen â gwaith prosiect a fydd yn gwella gwybodaeth reoli am gyflawni ein prosiectau a'n rhaglenni archwilio.<br>• Gwneud cynnydd da gyda gwaith prosiect arall yn ystod y flwyddyn. |

| Blaenoriaethau | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2024-25 |
|---|---|
| Ymgorffori'n llawn safonau archwilio newydd a safonau eraill a gyflwynwyd yn ddiweddar, gan nodi pwyntiau dysgu allweddol a chwmpas ar gyfer effeithlonrwydd. | **Statws:** Ar y trywydd iawn<br>**Sylwadau:**<br>Mae adolygiadau diweddar o Adran Sicrhau Ansawdd ICAEW yn dynodi nad yw ansawdd ein gwaith wedi cael ei effeithio'n negyddol gan gyflwyniad y Safon Ansawdd Archwilio newydd. Fodd bynnag, nodwyd rhai pwyntiau dysgu a darparwyd hyfforddiant dilynol priodol i staff.<br>Yn 2024-25, ail flwyddyn gweithredu'r Safon newydd, rydym wedi gweld arbedion effeithlonrwydd pendant oherwydd y dull archwilio diwygiedig ar gyfer cyrff GIG ac yn disgwyl ad-daliadau cymedrol ar draws ein harchwiliadau GIG ar gyfer 2023-24.<br>Yn ystod gweddill y flwyddyn, byddwn yn monitro i ba raddau y mae arbedion effeithlonrwydd hefyd yn cael eu sicrhau ar gyfer archwiliadau llywodraeth leol ac yn parhau i geisio dysgu gwersi a mireinio ein dull ymhellach.<br>Hyd yma yn 2024-25, rydym hefyd wedi:<br>• Cwblhau hyfforddiant diweddaru ISA 315 ar gyfer archwiliadau 2023-24.<br>• Ystyried y cwmpas i awtomeiddio ein platfform meddalwedd archwilio cyfrifon ymhellach.<br>• Gwneud diwygiadau i'n llawlyfr cyflawni archwiliadau perfformiad a chwblhau adolygiad gwireddu buddion.<br>• Diweddaru ein Cod Ymarfer Archwilio i gymryd Safonau Moesegol 2024 i ystyriaeth, a byddwn yn cyflwyno deunyddiau hyfforddiant wedi'u diweddaru yn fuan. |

| Blaenoriaethau | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2024-25 |
|---|---|
| Cyflwyno dull mwy systematig o waith dilynol ac olrhain gweithredu argymhellion archwilio gan gyrff cyhoeddus. | **Statws:** Ar y trywydd iawn<br>**Sylwadau:**<br>Yn ystod y cyfnod adrodd, rydym wedi dechrau ymwreiddio prosesau archwilio perfformiad newydd i nodi ymatebion rheolwyr o gyrff a archwilir i'n hargymhellion yn systematig ac yn gyson. Cefnogwyd hyn gan ddatblygiad cronfa ddata argymhellion i olrhain gweithrediad yn well (lle'u derbynnir gan y cyrff a archwilir) ac i helpu i flaenoriaethau unrhyw waith archwilio dilynol sydd wedi'i dargedu mwy.<br>Mae ein gwaith ar y flaenoriaeth hon yn adeiladu ar hyfforddiant staff perthnasol a ddarparwyd yn 2023-24, a fydd yn cael ei ymwreiddio ymhellach trwy newidiadau i'n templedi adrodd a fydd yn cael eu cyflwyno erbyn dechrau 2025-26.<br>Bydd cynllunio ar gyfer ein rhaglenni gwaith lleol a chenedlaethol yn 2025-26 yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol hon yn cynnwys ystyriaeth eglur o waith dilynol. |
| Mwy o bwyslais ar werth am arian drwy ddadansoddiad ariannol a chanlyniadau cryfach yn ein gwaith archwilio perfformiad. | **Status:** Ar y trywydd iawn yn bennaf ond angen rhywfaint o welliant pellach<br>**Sylwadau:**<br>Rydym yn dechrau gweld y pwyslais mwy hwn yn cael ei adlewyrchu ar draws brosiectau gweithredol a gwaith a gyhoeddwyd yn ddiweddar, gan gynnwys ar Dai Fforddiadwy, Teithio Llesol, a Cynllun Peilot Paru Data Fferylliaeth Gymunedol a'n hadroddiad diweddar ar ganlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol.<br>Yn ystod y chwe mis diwethaf, rydym hefyd wedi:<br>• Ymwreiddio ystyriaeth gryfach o waith dadansoddi ariannol a chanlyniadau yn gynharach yn y cyfnod cynllunio prosiect ar gyfer gwaith newydd.<br>• Archwilio opsiynau sydd ar gael a chostau hyfforddiant i gefnogi datblygiad sgiliau cysylltiedig, gan gynnwys gweithio gyda CIPFA i gefnogi eu gwaith o ddatblygu cymhwyster archwilio perfformiad newydd posibl. |

## Dull wedi'i dargedu ac sy'n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu

| Blaenoriaethau | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2024-25 |
|---|---|
| Defnyddio ein gwefan ar ei newydd wedd i ymestyn ein cyrhaeddiad a gwella mynediad at ein gwaith archwilio cyhoeddedig, byw ac sydd ar ddod. | **Statws:** Ar y trywydd iawn yn bennaf ond angen rhywfaint o welliant pellach<br>**Sylwadau:**<br>Yn ystod y cyfnod adrodd, rydym wedi parhau i ddatblygu ein gwefan ar ei newydd wedd, gan adeiladu ar y gwaith paratoi a gwblhawyd yn 2023-24.<br>Rydym bellach ar y camau olaf o baratoi fersiwn ar-lein fyw o'n blaenraglen o astudiaethau cenedlaethol, sy'n cynnig gwybodaeth gryno am astudiaethau unigol a safbwynt cyfredol ar gynnydd a wnaed.<br>Eleni, rydym hefyd yn treialu'r defnydd o grynodebau rhyngweithiol o'n prif adroddiadau, gan ddechrau gyda chyhoeddiadau corfforaethol allweddol fel ein Cynllun Blynyddol, gyda'r nod o ddefnyddio'r dull hwn yn ehangach yn y tymor hwy. Mae cynnydd yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn wedi gweld datblygu templedi a'r platfform i'n galluogi i gyhoeddi dogfennau rhyngweithiol.<br>Hefyd, rydym wrthi'n gweithio gyda chontractwyr i adolygu ein trefniadau ar gyfer paratoi a dylunio adroddiadau archwilio, gan gynnwys y trefniadau hyfforddi cysylltiedig ar gyfer staff. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys treialu'r defnydd o adroddiadau archwilio mwy cryno ar gyfer llywodraeth leol a monitro effaith y newidiadau trwy gasglu adborth gan staff a chynghorwyr. Nod cyffredinol y prosiect hwn yw gwneud ein hadroddiadau yn fyrrach ac yn haws i'w darllen, fel eu bod yn diwallu anghenion ein cynulleidfaoedd ac yn bodloni gofynion ansawdd newydd yn well. |

| Blaenoriaethau | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2024-25 |
|---|---|
| Cynyddu mynediad at arferion da a mewnwelediadau yn ystod ac ar ôl cwblhau ein gwaith archwilio, ac ymgysylltiad â nhw. | **Statws:** I'w gadarnhau<br>**Sylwadau:**<br>Dros y cyfnod adrodd, bu sylw cryf yn y cyfryngau i'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn sawl un o'n hadroddiadau cyhoeddedig. Ym mis Medi, roedd hyn yn cynnwys sylw eang gan y BBC, ITV, cyfryngau lleol a chyhoeddiadau arbenigol i'n hadroddiadau ar Dai Fforddiadwy, Llywodraethiant Awdurdodau Tân ac Achub, and Teithio Llesol.<br>Cynhaliwyd digwyddiad arfer da gennym ym mis Mai hefyd, o'r enw Pwyllgorau Archwilio: arferion effeithiol ac effaith gadarnhaol a roddodd gyfle i rannu dysgu a phrofiadau o archwiliadau ymhlith cynrychiolwyr o bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.<br>Rydym wrthi'n ailddatblygu'r rhan o'n gwefan lle'r ydym yn hyrwyddo enghreifftiau o arfer da a gwybodaeth sy'n ategu ein gwaith archwilio, mewn ffordd a fformat sy'n ddifyr i randdeiliaid. |

## Diwylliant a model gweithredu sy'n ein galluogi i ffynnu

| Blaenoriaethau | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2024-25 |
|---|---|
| Datblygu a gweithredu rhaglen monitro ansawdd tair blynedd i gefnogi ein dull sefydliad cyfan o reoli'r risg i ansawdd archwilio. | **Statws:** Angen gwella<br>**Sylwadau:**<br>Ym mis Mehefin 2024, cadarnhaodd Adran Sicrhau Ansawdd ICAEW eu bod o'r farn bod ein dull arfaethedig o ddatblygu rhaglen monitro ansawdd yn briodol o ystyried ein maint a'n graddfa. Ar ôl derbyn yr adborth, rydym wedi dechrau cynllunio rhaglen waith â phwyslais ar gyfer y tair blynedd nesaf.<br>Mae'r amserlen gyffredinol yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i ni o ran gwneud ein gwaith yn raddol ac rydym yn chwilio am adnoddau ychwanegol i gefnogi'r gwaith hwn.<br>Yn unol â safonau archwilio, mae'n ofynnol i ni sefydlu proses monitro ac adfer i fonitro a rheoli risgiau ar draws ein system o reoli ansawdd. Yn ystod y cyfnod adrodd, rydym wedi gweithio ar draws y sefydliad i adolygu ein trefniadau rheoli risg a chynnwys cofrestrau risg i hysbysu ein pwyslais ar fonitro ansawdd. |

| Blaenoriaethau | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2024-25 |
|---|---|
| Cyflwyno cynllun gweithlu sefydliad cyfan wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion staffio presennol ac i gynllunio ar gyfer anghenion staffio yn y dyfodol yn well. | **Statws:** Ar y trywydd iawn<br>**Sylwadau:**<br>Lansiwyd Strategaeth Gweithlu sefydliad cyfan gennym ym mis Medi 2024, sy’n cyflwyno gweledigaeth tymor hwy ar gyfer sicrhau a datblygu’r adnoddau pobl Archwilio Cymru angenrheidiol, gan gynnwys sgiliau a galluoedd.<br>Yn ystod blwyddyn gyntaf y Strategaeth, rydym yn canolbwyntio ar bedwar maes blaenoriaeth:<br>• Rheoli talent a chynllunio olyniaeth<br>• Datblygu sgiliau<br>• Mynd i’r afael â’r ôl-groniad archwilio – recriwtio, cadw a chapasiti<br>• Dyluniad, swyddogaethau ac adnoddau sefydliadol<br>Rydym wedi sefydlu amrywiaeth o fesurau perfformiad i ddarganfod a yw’r camau cynllunio busnes sy’n llifo o’r Strategaeth yn cyflawni fel y bwriadwyd, a bydd y mesurau hyn yn cael eu monitro yn rheolaidd gan ein Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol, a Phwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol y Bwrdd. |
| Buddsoddi ymhellach yn ein cynlluniau hyfforddai a phrentisiaethau i gryfhau maes yr ymgeiswyr a rhoi mwy o sylw i waith archwilio perfformiad. | **Statws:** Ar y trywydd iawn yn bennaf ond angen rhywfaint o welliant pellach<br>**Sylwadau:**<br>Yn ystod y cyfnod adrodd, fe wnaethom gynnal ymgyrch recriwtio eang ar gyfer y rownd ddiweddaraf o dderbyniad hyfforddeion a phrentisiaid a chawsom lefel ardderchog o ddiddordeb. Fe wnaethom lwyddo i benodi’r nifer ddymunol o ymgeiswyr. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod gennym waith i’w wneud o hyd i wneud yn siŵr ein bod yn estyn allan i ymgeiswyr o gymunedau mwy difreintiedig.<br>Fe wnaethom gynnydd da hefyd yn ystod hanner cyntaf 2024-25 o ran datblygu’r elfen sgiliau archwilio perfformiad ar gyfer hyfforddeion a phrentisiaid, a ategir gan brofiad gwaith ymarferol. Bydd y gwaith datblygu hwn yn parhau yn ystod gweddill 2024-25.<br>Yn fuan, byddwn yn dechrau paratoadau ar gyfer ein derbyniad hyfforddeion a phrentisiaid ar gyfer 2025, â phwyslais penodol ar sut y mae angen i ni lunio ein prosesau allgymorth a recriwtio i ddiwallu anghenion ein strategaeth gweithlu ym maes archwilio perfformiad yn llawn. |

| Blaenoriaethau | Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma yn 2024-25 |
|---|---|
| Annog mwy o weithio wyneb yn wyneb o fewn ein model gweithio hybrid, er mwyn sicrhau amgylchedd cynhyrchiol, cydweithredol a dymunol ar gyfer darparu gwaith o ansawdd uchel. | **Statws:** Ar y trywydd iawn<br>**Sylwadau:**<br>Rydym wedi canolbwyntio ar sicrhau llety o ansawdd uchel ond cost-effeithiol gyda mewnbwn gan staff i ddiwallu eu hanghenion orau, i helpu i annog a chefnogi mwy o weithio wyneb yn wyneb i wireddu'r buddion busnes a llesiant cysylltiedig. Rydym bellach yn cynllunio rhan olaf ein strategaeth ystadau yn dilyn symudiadau llwyddiannus mewn swyddfeydd yng Nghaerdydd ac yn y gogledd, a byddwn yn symud i swyddfa newydd yn y gorllewin ym mis Ebrill 2025.<br>Mae ein timau corfforaethol yn parhau i gydweithio'n rheolaidd yn ein prif swyddfa yng Nghaerdydd, gan ystyried y galw am eu gwasanaethau yn ogystal ag anghenion y timau priodol. O fewn y Gwasanaethau Archwilio, mae gwaith wedi parhau i sicrhau cymysgedd priodol o weithio wyneb yn wyneb ac ar-lein, gyda staff archwilio cyfrifon fel arfer yn gweithio o'r swyddfa 2-3 diwrnod yr wythnos tra bod staff archwilio perfformiad yn cael cyfarfodydd tîm personol wedi'u trefnu'n rheolaidd ochr yn ochr â gwaith personol ar gyfer gweithgareddau prosiect a chorfforaethol penodol.<br>Yn ystod y cyfnod adrodd, fe wnaethom lansio cynllun peilot oriau cywasgedig bob pythefnos i gynnig hyblygrwydd o fewn ein model gweithio hybrid a chefnogi cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith.<br>Mae cynnal yr amodau ar gyfer gweithio hybrid gwych wedi parhau i fod yn bwyslais i’n timau TG ac Ystad gan sicrhau bod offer a systemau ar gael, ac rydym yn parhau i ymateb i adborth gan staff. |

# Dangosyddion perfformiad allweddol

21 Caiff y sefyllfa ar 30 Medi 2024 o ran cyrraedd y 18 o dargedau dangosydd perfformiad allweddol a nodir yn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2024-25 ei chrynhoi isod. Yn yr arddangosyn, mae rhai o'r rhifau wedi eu talgrynnu i'w gwneud yn haws eu darllen a'u cymharu.

## Rhaglen archwilio strategol, ddeinamig o ansawdd uchel

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed 2024-25 | Perfformiad 2023-24 | Perfformiad hyd at 30 Medi 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Terfynau amser statudol | Cyfran y cynhyrchion archwilio wedi'i chyflawni erbyn y dyddiad cau statudol gofynnol. | 100% | ● 85% | ● 100% |
| 2 | Yn brydlon | Cyfran y cynhyrchion archwilio allweddol eraill wedi'u cyflawni yn unol â'r amserlen arfaethedig ar gyfer sicrhau adrodd amserol ac effeithiol. | 90% | ● 76% | ● 78% |

● Ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed 2024-25 | Perfformiad 2023-24 | Perfformiad hyd at 30 Medi 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| 3 | Ansawdd | Nifer yr archwiliadau a adolygir sy’n cael eu cyflawni yn unol â safonau ansawdd y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC). | Pob archwiliad a samplwyd yn y ddau gategori ansawdd archwilio uchaf. | 🟢 7 allan o 7 | Data ddim ar gael eto |
| 4 | Hygrededd | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n ein hystyried yn gyfathrebwr annibynnol ac awdurdodol ar lywodraethu a stiwardiaeth arian cyhoeddus ac asedau. | O leiaf 90% | 🟢 92% | Data ddim ar gael eto |
| 5 | Rhoi mewnwelediad | Cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd eu bod, drwy ein gwaith ni, wedi cael mewnwelediad defnyddiol na fyddent wedi ei gael fel arall. | O leiaf 80% | 🟠 64% | Data ddim ar gael eto |

🟢 Ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed 🟠 Angen gwelliant 🔴 Angen gwelliant sylweddol

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed 2024-25 | Perfformiad 2023-24 | Perfformiad hyd at 30 Medi 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| 6 | Ysgogi gwelliannau | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n credu bod ein gwaith wedi arwain at welliannau yn narpariaeth gwasanaethau cyhoeddus. | O leiaf 80% | ● 76% | Data ddim ar gael eto |
| 7 | Arbedion wedi'u nodi | Gwerth arbedion posibl, incwm, enillion cynhyrchiant a buddion ariannol eraill a nodwyd drwy ein gwaith. | O leiaf £30 miliwn yn ystod 2023-2026 | ● £700,000 | ● £7,800,000 |

● Ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

## Dull wedi’i dargedu ac sy’n cael effaith ar gyfathrebu a dylanwadu

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed 2024-25 | Perfformiad 2023-24 | Perfformiad hyd at 30 Medi 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| 8 | Allbynnau arfer da | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n dweud bod ein hallbynnau arfer da yn ddefnyddiol neu’n ddefnyddiol iawn. | O leiaf 90% | ● 100% | ● 83% |
| 9 | Ymweliadau â'r wefan | Nifer yr ymweliadau â'n gwefan lle mae o leiaf un weithred yn cael ei pherfformio, e.e. lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo. | 48,000 bob blwyddyn | ● 59,100 | ● 39,500 |
| 10 | Y cyfryngau cymdeithasol | Nifer yr ymgysylltiadau â'r cyfryngau cymdeithasol, h.y. rhyngweithio â'n postiadau er enghraifft eu hoffi, nodi sylw neu ail-drydar/rhannu. | 4,000 bob blwyddyn | ● 4,000 | ● 1,800 |

● Ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed 2024-25 | Perfformiad 2023-24 | Perfformiad hyd at 30 Medi 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| 11 | Nifer yr achosion lle rydym yn cyflwyno’r hyn rydym yn ei ddysgu drwy archwilio i weithgorau polisi allweddol neu mewn digwyddiadau perthnasol a gynhelir yn allanol. | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n ein hystyried yn gyfathrebwr annibynnol ac awdurdodol ar lywodraethu a stiwardiaeth arian cyhoeddus ac asedau. | 50 bob blwyddyn | 🟢 45 | 🟢 25 |

🟢 Ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed 🟠 Angen gwelliant 🔴 Angen gwelliant sylweddol

## Diwylliant a model gweithredu sy’n ein galluogi i ffynnu

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed 2024-25 | Perfformiad 2023-24 | Perfformiad hyd at 30 Medi 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| 12 | Ymgysylltu â chyflogeion | Canran cadarnhaol sgôr mynegai ymgysylltu arolwg staff blynyddol. | Sgôr meincnod canolrifol y Gwasanaeth Sifil | 🟢 64% | Data ddim ar gael eto |
| 13 | Trosiant | Cyfran y cyflogeion sy'n gadael Archwilio Cymru o’u gwirfodd bob blwyddyn. | Rhwng 5% a 10% | 🟠 12.3% | 🟢 9.1% |
| 14 | Absenoldeb salwch | Cyfanswm cyfran yr amser a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch. | Llai na 4% | Dangosydd Perfformiad Allweddol Newydd ar gyfer 2024-25 | 🟢 3.7% |
| 15 | Balans ariannol | Amrywiant tanwariant net ar incwm a gwariant o hynny a nodir yn ein Hamcangyfrif am y flwyddyn gyfredol. | Llai na 2% o’r gyllideb gwariant gros | 🟢 1.1% | 🟢 1.8% |

🟢 Ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed 🟠 Angen gwelliant 🔴 Angen gwelliant sylweddol

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed 2024-25 | Perfformiad 2023-24 | Perfformiad hyd at 30 Medi 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| 16 | Arbedion ariannol | Gwerth arbedion ariannol yn ystod y flwyddyn a gyflawnwyd ar draws y busnes. | £400,000 fel y nodwyd yn ein Hamcangyfrif ar gyfer 2024-25 | ● Cyrhaeddwyd y targed £500,000 arbedion heb fod yn gyflog. | ● £401,000 |
| 17 | Allyriadau nwyon tŷ gwydr | Cyfanswm yr allyriadau sy'n cyfateb i $CO_2$. | Gostyngiad o 40% ar waelodlin 2019-20 (581 tunnell)[1] | ● 280 tunnell | ● 170 o dunelli |
| 18 | Cyfradd llwyddiant hyfforddeion | Cyfran yr hyfforddeion sy'n pasio eu harholiadau Lefel Broffesiynol ac Uwch y tro cyntaf gyda Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr. | O leiaf 90% | ● 82% | ● 76% |

1 Heb gynnwys amcangyfrifon allyriadau'r gadwyn gyflenwi yr adroddir arnynt ar wahân yn ein Hadroddiad Cynaliadwyedd blynyddol.

● Ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targed ● Angen gwelliant ● Angen gwelliant sylweddol

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.wales

Gwefan: www.audit.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.